

# Adroddiad Blynyddol Y Corff Llywodraethol 2018-19



Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn addysgol 2017-18

## AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

<b>Aelod</b>	<b>Cynrychioli</b>	<b>Tymor gwasanaeth</b>
Mr James Evans (Cadeirydd)	Cyfethol	2015-2019
Mr Ian Goronwy Williams (Is-Gadeirydd)	AALI	2016-2020
Ms Emily Young	Rhieni	2018-2022
Ms Helen Whitney	Rhieni	2015-2019
Ms Alaw Ceris	Rhieni	2017-2021
Dr Greta Hughes	Cyngor Cymuned	2017-2021
Ms Falmai Squires	Cyfetholedig	2017-04/2019
Mr Andrew Parry	Cyfetholedig	2019-2023
Cyng. Angela Russell	AALI	2017-2021
Miss Catrin Elain Evans	Athrawon	2018-2022
Mrs Manon Haf Owen	Pennaeth	

**Cadeirydd:** Mr James Evans, Glennydd, Llanbedrog (740312)

**Clerc:** Mr Iwan Hughes, Derlwyn, Llanbedrog (740196)

### **Swyddogaethau'r Llywodraethwyr**

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r cyfrifoldebau wedi cynyddu'n sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Rhaid i'r corff gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond yn aml rydym yn cyfarfod ddwywaith y tymor.

Adroddodd y pennaeth yn dymhorol ar gyrhaeddiadau disgyblion a phresenoldeb, materion Cwricwlaid a chanlyniadau, anghenion arbennig, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Mae'r corff wedi ei rannu yn is-baneli sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Yn Ysgol Llanbedrog mae gennym Is-baneli Disgyblu a Diswyddo Staff, Apel Disgyblu a Diswyddo Staff, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Cwynion, Adolygu Tâl.

Ms Falmai Squires/MS Alaw Ceris oedd Llywodraethwr dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ms Emily Young oedd y Llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant.

Gallwch gael gwybodaeth bellach am y gyllideb neu weld cofnodion yr holl gyfarfodydd drwy ofyn i'r Clerc.

Cynhelir etholiadau i ethol rhiant-lywodraethwr newydd pan ddaw'r cyfnodau uchod i ben. Bydd yr etholiadau nesaf yn nhymor yr Hydref 2021.

### **Dyddiadau Cyfarfodydd**

Bu i'r Corff Llawn gyfarfod ar 11/10/18, 21/2/19, 11/4/19, 24/5/19, 11/7/19.

Yn ogystal â hyn cynhaliwyd cyfarfodydd o'r gwahanol banelau.

### **Adroddiad ar weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hydref 2018**

Ni chynhaliwyd cyfarfod gan na ofynwyd am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan y rhieni.

**TREFNIANT Y DOSBARTHADAU MEDI 2018**

Athro/ Athrawes	M	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Sera Cadwaladr Jones (mamolaeth Sian Angharad Elfryn)	9	13							22
Catrin Elain Evans			11	9					20
Lora Llwyd Thomas (absenoldeb Gwyneth Lloyd Jones)					10	18			28
Manon Haf Owen							5	9	14
									84

**PRESENOLDEB YSGOL GYFAN**

Presenoldeb	=	94.7%
Absenoldebau gydag awdurdod	=	4.6%
Absenoldebau heb awdurdod	=	0.7%

Targed presenoldeb y llywodraethwyr a Gwynedd oedd 95.5%. Pwysleisiwn yr angen am nodyn neu neges i egluro pob absenoldeb.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwysau mawr ar bob ysgol i godi presenoldeb ac i ddileu unrhyw absenoldeb di-awdurdod. Caiff cofrestr yr ysgol ei fwydo i system ganolog gan y Cyngor a rhaid i'r ysgol drafod unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Lles. Gweithredodd yr ysgol yn unol â'r gofynion.

**DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2018-19**

**Tymor yr Hydref 2018** Dydd Llun, 3 Medi—Dydd Gwener, 21 Rhagfyr  
**Hanner tymor** Dydd Llun, 29 Hydref - ddydd Gwener, 2 Tachwedd

**Tymor y Gwanwyn 2019** Dydd Llun, 7 Ionawr - Dydd Gwener, 12 Ebrill  
**Hanner tymor** Dydd Llun, 25 Chwefror - ddydd Gwener, 1 Mawrth

**Tymor yr Haf 2019** Dydd Llun, 29 Ebrill - Dydd Llun, 22 Gorffennaf  
**Calan Mai** (Gŵyl banc) - Dydd Llun, 6 Mai  
**Hanner tymor** Dydd Llun, 27 Mai - ddydd Gwener, 31 Mai

Bu 5 diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar 3/9/18, 4/4/19, 29/4/19, 14/6/19, 22/7/19

**SESIYNNAU'R YSGOL**

Bore: 9:00a.m -12:00p.m	Prynhawn 12:45pm CA2/1:00 p.m CS - 3:15p.m
Meithrin: 9:00 - 11:00 a.m	

(Clwb Gwarchod: 8.10am, Clwb Brecwast: 8:35am, ysgol yn agor: 8.50am)

### **BLAENORIAETHAU'R CDY 2018-19**

Nodir blaenoriaethau'r ysgol yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol (CDY), dogfen hynod bwysig y mae'r ysgol yn gweithio arni i geisio sicrhau ein bod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Mae'r Llywodraethwyr yn trafod elfennau ohoni ym mhob cyfarfod. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol hefyd yn derbyn copi o'r ddogfen hon. Dyma flaenoriaethau'r ysgol yn 2018-19 a bras disgrifiad o'r cyflawniadau.

<p><b>Blaenoriaeth 1:</b> Datblygu strategaethau addysgu a dysgu creadigol a chynhwysol ar draws yr ysgol gan arwain at godi safonau ymhellach a datblygu sgiliau, meddylfryd a chreadigrwydd disgyblion a staff.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiadau monitro gwersi, cynlluniau a llyfrau yn nodi bod safonau yn dda iawn yn y CS a Bl 5a6 ac yn dda yn Bl 3a4 (newidiadau staffio tymor byr) - (data, profion, ymyrraethau, arsylwi, craffu/ darpariaeth- cynlluniau, arsylwi, craffu)</li> <li>• Cynlluniau gwaith creadigol yn cael eu hadlwyrcu yn effeithiol yng ngwaith y plant, gan daro gofynion statudol a'r ysgol</li> <li>• System tracio ac asesu'r yr ysgol yn dangos cynnydd da neu well yng nghyraeddiad pob disgybl gan gynnwys y grwpiau targed a'r rhai i gyrraedd lefelau uwch. (yn erbyn y Cwricwlwm a FfLIRh, Fframwaith Cymhwysedd Digidol) ar Incerts ac yng ngwaith y disgyblion</li> <li>• Cyd-weithio effeithiol ar draws yr ysgol yn sicrhau y cyfleoedd, darpariaeth a dilyniant orau i godi safonau pob disgybl</li> <li>• Defnydd gwerthfawr o ardaloedd, dosbarthiadau, tu mewn ac allan i'r ysgol a defnydd effeithiol o adnoddau, gan gynnwys adnoddu dynol yn arwain at godi safonau a sgiliau</li> <li>• Defnydd canmoladwy o asesu ar gyfer dysgu yn meithrin dysgwyr hyderus ac annibynnol sydd yn gwybod sut i lwyddo</li> </ul>
<p><b>Blaenoriaeth 2</b> Parhau i roi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ar waith gan ddatblygu sgiliau staff a disgyblion a chynllunio'n fwriadus i gyflawni'r disgwyliadau'n effeithiol ar draws yr ysgol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiadau monitro gwersi, cynlluniau a llyfrau yn nodi bod disgyblion yn cyflawni gofynion FfCD i safon dda neu well ar draws yr ysgol yn ddi-eithriad gydag amrediad eang o agweddau TGCh yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys agweddau nad oedd yn cael digon o sylw cynt (yn ol canlyniadau holiaduron Medi)</li> <li>• Safonau addysgu yn gyson dda ymhob dosbarth gydag elfennau rhagorol mewn dosbarthiadau.</li> <li>• Sgiliau staff a disgyblion yn datblygu ac ehangu'n gadarn</li> <li>• Safon gwaith disgyblion yn gyson dda neu well , gyda disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ymateb i'r adborth ac i wella eu gwaith drwy ail ddrafftio pwrpasol o ansawdd.</li> <li>• Holiaduron a gwaith disgyblion a staff yn dangos eu bod eu sgiliau TGCh ac ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch yn datblygu'n dda , gyda cynnydd i'w weld yn yr addysgu a dysgu ar draws yr ysgol ; yn y disgwyliadau yng nghynlluniau'r athrawon a'r cyflawniad yng ngwaith y disgyblion.</li> </ul>
<p><b>Blaenoriaeth 3</b> Mireinio a datblygu systemau arfarnu/tracio'r ysgol er mwyn parhau i ddatblygu disgyblion a staff a dyfnhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhieni a llywodraethwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae adroddiadau monitro gwersi, cynlluniau a llyfrau yn nodi bod safonau'r ysgol gyfan yn cymharu yn dda iawn o'i gymharu a'n targedau, heblaw Bl 3a4 sydd yn dda yn dilyn newidiadau staffio dros dro yn 2018-19,</li> <li>• Holl athrawon yn hyfedrus iawn wrth asesu a chynllunio'r camau nesaf ymlaen ar gyfer eu disgyblion ac yn gwneud hyn yn effeithiol.</li> <li>• Gwelir fod systemau tracio ysgol gyfan , grwpiau ac unigolion yn effeithiol ac yn dangos adnabyddiaeth dda o bob disgybl ac yn arwain at gynllunio pendodol a phwrpasol ar gyfer pob un</li> <li>• Gwelir fod cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng staff, disgyblion a rhieni yn arwain at ddealltwriaeth o gyrhaeddiad a gweithredu'r camau nesaf ymlaen i ddatblygu pob disgybl</li> <li>• Mae dealltwriaeth a hyfedr y cydlynnydd ADYaCh wedi dyfnahu a chryfhau'n dda iawn dros y flwyddyn ac mae systemau cofnodi yn datblygu'n dda gan roi sylw i'r Ddeddf Diogleu Data a lleihau baich gawith er mwyn rhoi mwy o amser i weithredu yn hytrach na chofnodi.</li> </ul>

### HYFFORDDIANT STAFF

Mynychodd y staff nifer o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn yn unol â'r CDY, blaenoriaethau'r Awdurdod a'r Llywodraeth. Ceir rhestr o'r holl hyfforddiant yn yr ysgol.

### DATGANIAD ARIANNOL

@Cynhelir cyfarfod o'r Panel Cyllid yn dymhorol ac mae'r llywodraethwyr yn adolygu polisiau yn ymwneud â chyllid yn unol â'r gofynion. Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.

#### \* Gwariant perthnasol o gyfrifol terfynol yr ysgol am 2018-19

Cynnal a Chadw'r Adeilad	£ 2,289
Trydan	£ 3,766
Nwy	£ 1,450
Dwr	£ 2,098
Contract Glanhau	£ 10,540
Cynnal Tiroedd	£ 540
Offer Ymladd Tân	£ 64
Trethi	£ 5,090
Lwfans y Pen (offer, llyfrau ac ati)	£ 16,391
Dodrefn	£ 660
Post	£ 154
Ffôn	£ 387
Pyllau Nofio	£ 3,736
Gwasanaeth Cerdd (gwersi offerynol)	£ 1,023
Cynnal- Cefnogaeth Technoleg	£ 1,215
Arian wrth gefn	£3,325 (ar gyfer diogelu a chynnal staffio)

#### \* Costau teithio a Chynhaliadaeth Llywodraethwyr- £0

\* **Cronfa'r ysgol:** Hon yw'r gronfa ar gyfer gwariant bob dydd. I'r gronfa hon mae arain teithiau addysgol, tynnu lluniau ac ati yn mynd. Mae cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ac a dalwyd ohoni yn sylweddol. Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn flynyddol gan gyfrifydd allanol, yn unol â'r gofynion ac mae manylion ar gael yn yr ysgol pe dymunir eu gweld. £1882.68 o arian mewn llaw 1af Ebrill 2019.

\* **Rhoddion i'r ysgol:** Bu'r Cyfeillion yn brysur iawn eto yn casglu arian ar gyfer yr ysgol. Hoffai'r llywodraethwyr ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae'r ysgol a phob plentyn sydd ynddi wedi elwa'n fawr o'r cyfraniadau hyn. (Atodiad 2).

### LLAWLYFR YSGOL

Mae'r llawlyfr yn cael ei ddiweddarau yn flynyddol. Rhoddir copi i rieni pan fo eu plant yn cychwyn yn yr ysgol. Mae copiau o'r llawlyfr ar gael yn yr ysgol ac ar y wefan. Does dim newidiadau mawr ers yr adroddiad diwethaf.

### GWYBODAETH AM BERFFORMIAD A THARGEDAU

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau asesiadau diwedd blwyddyn 2 a 6 yn Haf 2019 yn yr ysgol ac yn nodi targedau at 2019. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu y disgyblion oedd ar gamau ADYaCh yr ysgol.

% Cyfnod Sylfaen - Deilliant 5 neu 6

% Cyfnod Allweddol 2 - Lefel 4 neu 5

#### **Cyfnod Sylfaen**

Bl 2- Deilliant 5+ a 6+	2019 (9 plentyn, 1 plentyn- 11.1%)				2020	2021	2022
	Targed D5+	Canlyniad D5+	Targed D6+	Canlyniad D6+			
Dangosydd Cyfnod Sylfaen	100%	77.8%			84.6%	100%	72.7%
Sgiliau Iaith a Llythrennedd Cymraeg	100%	77.8%	66.7%	66.7%	76.9%	100%	81.8%
Datblygiad Mathemategol	100%	88.9%	66.7%	77.8%	90%	100%	81.8%
Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	100%	100%	100%	100%	84.6%	100%	90.9%

#### **Cyfnod Allweddol 2**

Bl6- Lefel 4+ a 5+	2019( 10 plentyn, 1 plentyn - 10%)				2020	2021	2022
	Targed L4+	Canlyniad L4+	Targed L5+	Canlyniad L5+			
Dangosydd Pynciau Craidd	90%	88.9%			94.4%	90%	77.8%
Cymraeg	88.9%	88.9%	55.5%	50%	94.1%	70%	77.8%
Saesneg	90%	90%	50%	50%	94.4%	90%	77.8%
Mathemateg	90%	90%	40%	50%	94.4%	90%	88.9%
Gwyddoniaeth	90%	90%	50%	50%	94.4%	90%	100%

### TARGEDAU PERFFORMIAD

Mae'r Llywodraethwyr wedi trafod a chytuno ar y targedau a nodir yn y tabl uchod ar gyfer asesiadau statudol Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Gosodir targedau unigol i bob plentyn drwy'r ysgol i ddatblygu pawb fel unigolion yn ôl eu gallu personol. Annelwn at gyrraedd y lefelau disgwylidig sef Deilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) a Lefel 4 ar ddiwedd CA2 (Blwyddyn 6), neu darged gyrhaeddadwy arall. Gosodir targedau heriol i bob disgybl, yn unol â'u gallu addysgol.

Er mwyn ymestyn pob unigolyn i fod yn hyderus a chyrraedd ei lawn botensial, caiff rhai disgyblion eu targedu mewn agweddau y maent angen hwb neu her bellach ynddo; e.e mewn Llythrennedd, Rhifedd a Lles. Gall hyn ddigwydd fel sylw, cymorth neu waith gwahaniaethol o fewn y dosbarth neu mewn grŵp bychan neu'n unigol gyda chymhorthydd tu allan i'r docbarth. Caiff disgyblion, sydd ar gofrestr ADYaCh yr ysgol, sylw neu dargedau gan arbenigwyr allanol sydd yn ymweld â'r ysgol a byddwn yn cyd-weithio arnynt yn yr ysgol.

Gan bod nifer y plant ym mhob blwyddyn yn eithaf isel, mae un plentyn yn cyfrif fel % uchel o ddata blwyddyn gyfan.

### CYFRANOGIAD PLANT

Mae plant yr ysgol yn cael cyfrannu eu syniadau i fywyd a threfn yr ysgol drwy amrywiol ffyrdd, trafodaethau, holiaduron, Cyngor Ysgol, Grŵp Gwyrdd, Grŵp Iach, Swyddogion Diegelwch am bydd eu cyfraniad yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr yn achlysurol.

Rhai o'u cyfraniadau yn 2018-19 oedd trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da, trefnu a chynnal gemau amser chwarae a chlybiau ôl-ysgol. Mae Gwefan a chyfrif Facebook yr ysgol yn gofnod gwych o hyn.

Cyfrannodd y disgyblion hefyd i gynllunio gwaith y dosbarth drwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent eu dysgu a syniadau am sut y gellir gwneud hynny.

### ADEILADAU

Mae pob rhan o'r ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Cynhelir ymarfer larwm tân pob hanner tymor.

#### **Tymor yr Hydref**

- Cynhaliwyd asesiad risg tân yr Awdurdod yn llwyddiannus
- Cael generadur am ddiwrnod tra bod cwmni yn diffodd trydan y pentref, I beidio gorfod cau'r ysgol
- Diogelu rhannau o'r ffens newydd o amgylch y cae

#### **Tymor y Gwanwyn**

- Gwaith llenwi craciau ac atgyweirio cwt allanol y Cyfnod Sylfaen

#### **Tymor yr haf**

- Gosod llawr Softpour o dan yr offer dringo yn y parc i allu ei ddefnyddio eto
- Marcio'r iard

#### **Yn ychwnaegol, cwblhawyd profion arferol blynyddol megis:**

- \* Profi offer trydanol
- \* Profi gwresogyddion
- \* Profi offer a systemau tân
- \* Profi offer addysg gorfforol
- \* Archwiliad Adran Eiddo
- \* Arolwg cyflwr adeiladau

#### **Toiledau'r ysgol**

Mae toiledau pwrpasol, cymhareb tua 1:10, gan gynnwys toiledau 'bach' i blant y Cyfnod Sylfaen a thoiled addas i'r anabl. Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân i blant CA2. Mae toiledau'r staff ar gael i defnydd plant fel bo'r angen. Caiff y toiledau eu glanhau yn ddyddiol.

### CWRICWLWM

Fel pob ysgol arall mae'r ysgol yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac agweddau o'r Fframwaith Sgiliau Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol - mae copïau ar gael o'r ysgol neu oddi ar ein gwefan. Rydym hefyd yn dilyn cwricwlwm Webster-Stratton i gyflwyno strategaethau ymddygiad a hunan-ddisgyblaeth. Mae hyn yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd.

## **POLISIAU A STRATEGAETHAU**

Adolygwyd a mabwysiadwyd nifer o bolisiau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisiau ar gael yn yr ysgol a rhai ar wefan yr ysgol.

### **Polisi ADYach**

Amcan yr ysgol yw adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysedd yn fuan, er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth a chynhaliadaeth orau, mwyaf cynhwysfawr ar eu gyfer pob disgybl gan helpu pawb i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn flaenoriaeth gan y Llywodraethwyr.

I'r perwyl hwn mae Targedau a Chynlluniau Datblygu Unigol manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r plant a'r rhieni.

Cydlynedd ADY Ysgol Llanbedrog -Mrs Manon Haf Owen

Llywodraethwr dynodedig ADY- Ms Falmai Squires/ Ms Alaw Ceris

### **Disgyblion ag anableddau**

Yn unol â pholisi'r Awdurdod a gweledigaeth yr ysgol, mae mynediad llawn i ddisgyblion ag anabledd pe bai'r sefyllfa yn codi. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fyddai disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

## **CATEGORI IAITH**

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol ac rydym yn dilyn Polisi Iaith Gwynedd. Bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cyrraedd yr ysgol yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dânt i siarad yn rhugl.

Cymraeg yw prif iaith gyfathrebol yr ysgol. Disgwylir, yn unol â nîd Siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd, i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard, ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Enillodd yr ysgol wobwr Aur y Siarter Iaith.

Yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Ein nîd yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-Gymraeg yn dod i'r ysgol, yn ystod y Blynyddoedd Cynnar bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn naturiol. Os bydd hwyrdyffodiaid neu blant Mlwyddyn 2 ac uwch fyddai'n elwa o loywi iaith neu godi hyder byddant yn mynd i'r Ganolfan Iaith leol yn Llanybi am dymor. Mynychodd dau ddisgybl y Ganolfan Iaith yn 2018-19.

## **CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL**

Cyd-weithiodd yr ysgol gydag ysgolion y dalgylch a thu hwnt mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgwricwlaidd megis gweithgareddau chwaraeon a chlybiau dalgylch.

Ymwelodd nifer o unigolion ac arbenigwyr â'r ysgol megis ein plismon ysgol PC Owen, gweithdy NSPCC, Catrin Williams a Tess Urbanska (gweithdai celf), Casia Wiliam (gweithdy Barddoniaeth), Alun Tan Lan (gweithdy ukulele), Gwion Aled a Llion Williams, (gweithdai drama), Bernad Sautin ac Alaw Owen (gweithdai Ffrangeg), Lori Ni, Swyddog Ailgylchu, Kerbcraft, Gwersi seiclo, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Nia o Goleg y Bala, y Ficer lleol Andrew Jones, drama Cwmni'r Frân Wen.

Cefnogom elusennau, cymdeithasau a busnesau lleol e.e Plant Mewn Angen, Marie Curie, British Heart Foundation, MacMillan, Cynllun Gwên, T4U, Ffrindiau Dementia, Trwynau Cochion, yr Ymddiriedolaeth Genendlaethol, Diwrnod Miwsic Cymru a Diwrnod y Llyfr.

Daeth disgyblion Ysgol Botwnnog, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai ar brofiad gwaith. Credwn ei bod yn bwysig fod y plant yn cael amrywiol brofiadau ar ac oddi ar dir yr ysgol ac yn creu cyswllt gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd er mwyn cyfoethogi eu haddysg. Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yn Adroddiadau'r Pennaeth a chofnodion llawn y Llywodraethwyr, sydd ar gael o'r ysgol.

## **NODAU A CHYFLAWNIADAU CHWARAEON**

Mae'r disgyblion yn elwa o nifer o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r iard, y cae, y Neuadd, Canolfan Hamdden Dwyfor a Chlwb Chwaraeon Pwllheli ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chwaraeon. Cafwyd llwyddiant mewn gweithgareddau dalgylch a thu hwnt. Miss Catrin Evans oedd ein cyd-gysylltydd Addysg Gorfforol yr ysgol ac mae darpariaeth eang yn cael ei gynnig i'r plant o fewn yr ysgol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.

'Rydym yn defnyddio'r ganolfan hamdden i ddatblygu sgiliau nofio a bu nifer o'r plant yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gala Nofio Dwyfor. Rhown fri ar ddysgu plant i nofio yn ifanc (gan ein bod yn byw mor agos at y môr) ac o ganlyniad cyflwynwn wersi nofio o'r dosbarth Derbyn ymlaen. Defnyddir y ganolfan hamdden hefyd i ddatblygu sgiliau pêl, tenis, gymnasteg a dawns.

Aeth plant blynyddoedd 3 a 4 a plant blynyddoedd 5 a 6 ar gyrsiau antur preswyl yng Nglan Llyn a Phlas Menai. Cynigiodd yr ysgol glwb Campau'r Ddraig ôl-ysgol a chynhelwyd Clwb Dal i Fynder iard yr ysgol. Cynhaliwyd cystadlaethau Rygbi, Hoci, Criced, Pêl rwyd ac Athletau sirol a dalgylchol ar gyfer plant ym mlwyddyn 3,4,5 a 6. Cynhalwyd Clwb Gymnasteg yn Ysgol Botwnnog gan athrawes yr ysgol ac fe'i mynychwyd gan nifer o ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu'r lluo o glybiau chwaraeon lleol gan gynnwys rhai a gynhelir gan ysgolion y dalgylch, daw unigolion o'r clybiau i'r ysgol i gynng sesiynau blasu.

## **BWYTA'N IACH**

Dilyna'r ysgol ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â Byw'n Iach. Annogwyd plant i brynu ffrwyth o'n siop ffrwythau neu ddod â ffrwyth hefo nhw o gartref i'w fwyta ganol y bore, ac i yfed dŵr a'r ffynnon ddŵr unrhyw adeg o'r dydd. Ni chaniatwyd bwyd a diodydd sydd ddim yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth.

## **I GLOI**

Hoffai'r Corff Llywodraethol a'r staff ddiolch yn fawr iawn am gymorth parod y rhieni gyda phob trefniant yn ystod y flwyddyn. Cyfranna'r Cyfeillion yn helaeth at fywyd yr ysgol drwy drefnu digwyddiadau i godi arian. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn elwa o'u gwaith. Gwerthfawrogn fawr y berthynas iach sydd rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned.

**GOFYN AM GYFARFOD** (Atodiad 3)

## **DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2019-20**

### **TYMOR:**

Hydref 2019 2 Medi 2019 - 20 Rhagfyr 2019  
Gwanwyn 2020 6 Ionawr 2020 - 3 Ebrill 2020  
Haf 2020 20 Ebrill 2020 - 20 Gorffennaf 2020

### **GWYLIAU:**

28 Hydref - 1 Tachwedd 2019 (Hanner-Tymor)  
23 Rhagfyr 2019 - 3 Ionawr 2020 (Gwyliau'r Nadolig)  
17 - 21 Chwefror 2020 (Hanner-Tymor)  
6 - 17 Ebrill 2020 (Gwyliau'r Pasg)  
4 Mai 2020 (Calan Mai)  
25 - 29 Mai 2020 (Hanner-Tymor)  
21 Gorffennaf - 31 Awst 2020 (Gwyliau'r Haf)

Bydd dyddiau o hyfforddiant staff yn ychwanegol i'r uchod; 2+3/9/19, 25/10/19, 4/11/20, 20/4/20, 20/7/20